

Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Gymunedol 2014

Rheolau

Awel Cyf

ENW

1. Enw'r sefydliad fydd Awel Cyf.

SWYDDFA GOFRESTREDIG

2. Bydd swyddfa gofrestredig y gymdeithas yn Awel, 76-78 Heol Gwilym, Cwmllynfell, Abertawe SA9 2GN

DEHONGLIADAU

3. Yn y rheolau hyn:

Mae "**Aelod**" gyda'r un ystyr a fanylir o dan "Aelodaeth" yn y rheolau hyn;

Mae "**Aelod Sylfaenol**" yn golygu tanysgrifiwr i'r rheolau hyn i ddibenion cofrestru;

Mae "**Archwilydd**" yn golygu unigolyn sy'n gymwys i gael eu penodi fel archwilydd y cwmni o dan Rhan 42 o Ddeddf Cwmnïau 2006;

Mae "**Bwrdd Cyfarwyddwyr**" neu "**Bwrdd**" yn golygu yr holl unigolion hynny a benodir i berfformio dyletswyddau cyfarwyddwyr y gymdeithas;

Mae "**Cofrestrydd**" yn golygu'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) neu unrhyw gorff sy'n llwyddo yn ei swyddogaeth;

Mae "**Cyfarfod Bwrdd**" yn cynnwys cyfarfod a gynhelir mewn modd electronig a chyfarfod dros y ffôn, oni bai ei fod yn anghyson ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol ac mewn lleoliad corfforol;

Mae "**Cyfarwyddwr**" yn golygu cyfarwyddwr y gymdeithas ac yn cynnwys unrhyw unigolyn sydd yn cyfarwyddo, chyda pha bynnag enw;

Mae "**Cyfeiriad**" yn golygu cyfeiriad postio neu, ar gyfer dibenion cyfathrebu electronig, rhif ffacs, cyfeiriad e-bost neu rif ffôn ar gyfer derbyn negeseuon testun;

Mae "**Cymdeithas**" yn golygu y gymdeithas a enwir uchod;

Mae “**Deddf**” yn cyfeirio at Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Gymunedol 2014 neu unrhyw Ddeddf neu Ddeddfau sy'n ei diwygio neu yn ei hamnewid am y cyfnod hwnnw mewn grym;

Mae “**Deiliad Swydd**” yn golygu derbynnydd, derbynnydd gweinyddol, datodwr, datodwr dros dro neu weinyddwr rhai asedau neu asedau sylweddol Aelod;

Mae “**Dogfen**” yn cynnwys unrhyw ddogfen a yrrir neu a gyflenwir ar ffurf electronig, oni nodir yn wahanol;

Bydd “**Dulliau Electronig**” yn cynnwys, er enghraifft, e-bost, dolenni fideo a thrafodion gwefan awdurdodedig a diogel;

Mewn perthynas â chyfnod rhybudd, nid yw “**Dyddiau Clir**” yn cynnwys y diwrnod pryd y cynhelir y cyfarfod a'r diwrnod y rhoddir rhybudd i rhywun neu y gadewir ef yn eu Cyfeiriad, na'r diwrnod y'i gyrrir, y mae yn y broses o gael ei yrru a thybir y caiff ei yrru;

Mae “**Gweithiwr**” yn golygu unrhyw un sydd â chontract cyflogaeth gyda'r Gymdeithas;

Mae “**Hawl tynnu'n ôl**” yn golygu cyfranddaliadau gyda'r hawl gysylltiedig i Aelod fod â'r hawl i endynnu arian sydd werth eu cyfranddaliadau o'r Gymdeithas;

Mae “**Penderfyniad Anarferol**” yn golygu y penderfyniadau hynny sydd angen penderfyniad anarferol fel a fanylir dan 'Penderfyniadau' yn y rheolau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn gofyn fel arall;

Mae “**Rheolau**” yn golygu'r rheolau hyn;

Mae “**Rheoliadau**” â'r un ystyr ag a fanylir o dan 'Rheoliadau' yn y rheolau hyn;

Mae “**Swyddog**” â'r un ystyr ag a fanylir o dan 'Swyddogion' yn y rheolau hyn;

Mae “**Trosglwyddadwy**” yn golygu cyfranddaliadau sy'n drosglwyddadwy i Unigolyn arall sy'n gymwys i aelodaeth y Gymdeithas yn unol â'r Rheolau hyn;

Mae “**Unigolyn**” yn golygu unigolyn naturiol, corff anghorfforedig, cwmni, partneriaeth, corff corfforaethol neu enwebai corff anghorfforedig, cwmni, partneriaeth neu gorff corfforaethol;

Mae “**Ysgrifen**” yn golygu cynrychiolaeth neu ailgynhyrchu geiriau, symbolau neu wybodaeth arall ar ffurf gweladwy mewn unrhyw ddull neu gyfuniad o ddulliau, boed wedi ei yrru neu wedi ei ddarparu mewn Dull Electronig neu fel arall.

Mae “**Ysgrifennydd**” yn golygu unrhyw unigolyn a benodwyd i berfformio dyletswyddau Ysgrifennydd y Gymdeithas.

NODAU

4. Nodau'r Gymdeithas fydd parhau ag unrhyw fater er budd y gymuned gan gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn Nyffryn Aman Uchaf a Chwm Tawe yn Ne Cymru, gan leihau allyriadau carbon a chynhyrchu cronfa gymunedol a ddefnyddir i gynorthwyo gwaith yr elusen leol, Awel Aman Tawe, i ymgymryd ag ynni adnewyddadwy, tlodi tanwydd a phrosiectau amgylcheddol pellach.
5. Perchnogir a rheolir y Gymdeithas gan ei Haelodau ar sail teg.

GRYMOEDD

6. Gall y Gymdeithas wneud holl bethau cyfreithiol a all bellhau nodau'r Gymdeithas ac, yn benodol, gall fenthyg neu endynnu arian i unrhyw ddiben sydd o fudd i'r Gymdeithas.

BENTHYCA

7. Caiff y Gymdeithas rym i fenthyca arian gan ei Haelodau ac eraill i hybu ei nodau ar yr amod nad yw'r swm sy'n ddyledus ar unrhyw amser yn mynd y tu hwnt i £10,000,000.
8. Caiff y Gymdeithas rym i forgeisio neu godi tâl ar unrhyw un o'i heiddo, gan gynnwys asedau ac ymgymeriadau y Gymdeithas, nawr ac yn y dyfodol, a rhoi benthyciad stoc, dyledebau a gwarantau eraill ar gyfer arian a fenthycir neu ar gyfer gweithredu unrhyw gontractau y Gymdeithas neu ei chwsmeriaid neu Unigolion sy'n delio â'r Gymdeithas.
9. Ni fydd cyfradd llog ar arian a fenthycwyd, oni bai ar arian a fenthycwyd trwy fenthyciad banc neu orddrafft neu o dŷ cyllid neu ar forgais o gymdeithas adeiladu neu awdurdod lleol, yn mynd y tu hwnt i'r isafswm cyfradd sydd ei angen ym marn y Bwrdd i gael a chadw y cyfalaf sydd ei angen i gyflwyno nodau y Gymdeithas.
10. Gall y Gymdeithas dderbyn gan Bensiwn, rhoddion neu fenthyciadau di-log er mwyn cyflwyno ei nodau, ond ni dderbynia arian ar flaendal.

GWEITHGARWCH DEDDF GWASANAETHAU A MARCHNADOEDD ARIAN 2000

11. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni fydd y Gymdeithas yn ymgysylltu ag unrhyw weithgarwch yn rhinwedd unrhyw un o'r Rheolau hyn a fyddai angen caniatâd gan y Cofrestrydd i gynnal y gweithgarwch hwnnw heb orfod ymgeisio a chael y fath ganiatâd.

BUDDSODDI CRONFEYDD

12. Gall y Gymdeithas fuddsoddi unrhyw ran o'i chronfeydd yn y modd a amlinellwyd yn Adran 27 o'r Ddeddf.

AELODAU

13. Aelodau cyntaf y Gymdeithas fydd yr Aelodau Sylfaenol. Efallai y bydd y Bwrdd yn ei ddoethineb yn derbyn unrhyw unigolyn, corff corfforaethol neu enwebai o gorff, cwmni neu bartneriaeth anghorfforedig sy'n cefnogi nodau'r Gymdeithas ac sydd wedi talu neu wedi cytuno i dalu unrhyw danysgrifiad neu swm arall mewn perthynas ag aelodaeth am yr amser mewn grym.

Ceisiadau am Aelodaeth

14. Ni fydd unigolyn naturiol yn cael eu derbyn i aelodaeth y Gymdeithas oni bai eu bod wedi cyrraedd 16 oed. Dylai'r rhai sydd yn dymuno dod yn Aelod gefnogi amcanion y Gymdeithas a chwblhau cais am aelodaeth a fydd yn cynnwys cais am o leiaf un cyfranddaliad yn y Gymdeithas. Rhaid i'r fath ffurflen gais gael ei chymeradwyo gan y Cyfarwyddwyr a dylai'r Cyfarwyddwyr gymeradwyo pob cais am aelodaeth.
15. Gall corff corfforaethol sy'n Aelod, trwy benderfyniad ei gorff llywodraethol, benodi cynrychiolydd sydd efallai â hawl i ymarfer holl hawliau a grymoedd a fyddai'r corff corfforaethol yn ei wneud petai'n unigolyn yn ystod eu penodiad.

Ymroddiad Aelod

16. Mae holl Aelodau yn cytuno i gyfranogi mewn cyfarfodydd cyffredinol a chymryd diddordeb byw yng ngweithrediad a datblygiad y Gymdeithas a'i busnes. Mae gan Aelodau ddyletswydd i barchu natur cyfriniol penderfyniadau busnes y Gymdeithas.

Diddymu Aelodaeth

17. Bydd Aelod yn peidio â bod yn Aelod o'r Gymdeithas yn syth os ydynt:

- (a) Yn methu dal y cyfranddaliad lleiaf; neu
- (b) Yn methu talu y tanysgrifiad blynyddol mewn 3 mis sy'n ddyledus (os o gwbl); neu
- (c) Yn ymddiswyddo yn ysgrifenedig at yr Ysgrifennydd; neu
- (d) Yn cael eu diarddel o'r Aelodaeth yn unol â'r Rheolau hyn; neu
- (e) Yn marw, cysylltiad yn dod i ben neu y diddymwyd.

Diarddel Aelodaeth

18. Gall Aelod gael eu diarddel oherwydd ymddygiad sy'n niweidiol i'r Gymdeithas gan Benderfyniad Anarferol, ar yr amod bod y rhesymau ar gyfer diarddeliad wedi cael eu manylu yn yr hysbysiadau sy'n galw'r cyfarfod a bod yr Aelod yr ystyrir eu diarddel yn cael y cyfle i wneud sylwadau i'r cyfarfod neu, o ddewis yr Aelod, unigolyn sydd yno i'w cynrychioli (sydd ddim angen bod yn Aelod o'r Gymdeithas) sydd wedi cael caniatâd i wneud sylwadau i'r cyfarfod cyffredinol.
19. Os ar rybudd priodol wedi ei gyflwyno y metha'r Aelod fynychu'r cyfarfod, gall y cyfarfod barhau yn absenoldeb yr Aelod.
- (a) Telir Aelod a ddiarddelwyd y gwerth enwol o gyfranddaliadau a ddelir ganddynt pryd y diarddelir hwy;
 - (b) Ni aildderbynnir Aelod os ydynt wedi'u diarddel o aelodaeth oni bai gan Benderfyniad Anarferol.

TRAFODION AR FARWOLAETH NEU FETHDALIAD AELOD

20. Ar hawliad yn cael ei wneud gan:
- (a) Cynrychiolydd personol Aelod marw; neu
 - (b) Ymddiriedolwr methdaliad i Aelod sy'n fethdalwr; neu
 - (c) Deiliad Swydd i unrhyw eiddo yn y Gymdeithas sydd berchen i'r fath Aelod, bydd y Gymdeithas yn trosglwyddo neu yn talu eiddo y mae'r Deiliad Swydd wedi eu hawlio fel y cyfarwyddir hwy gan y Deiliad Swydd.
21. Gall Aelod, yn unol â'r Ddeddf, enwebu unrhyw unigolyn neu unigolion y trosglwyddir eu heiddo yn y Gymdeithas iddynt ar eu marwolaeth. Ond bydd y fath enwebiad ond yn ddilys hyd eithaf yr amser a ganiateir gan y Ddeddf. Ar dderbyn tystiolaeth foddhaol o farwolaeth Aelod sydd wedi enwebu, bydd y

Gymdeithas, yn unol â'r Ddeddf, un ai yn trosglwyddo neu dalu gwerth llawn yr eiddo sy'n gynwysedig yn yr enwebiad i'r unigolyn neu'r unigolion sydd â hawl o dan y Ddeddf honno.

Cyfalaf a Rennir

22. Bydd cyfranddaliadau'r Gymdeithas o werth enwol o £1. Bydd lleiafswm cyfranddaliad sy'n ofynnol i Aelod yn cael ei ddiffinio fel y cyfryw nifer o gyfranddaliadau a dalwyd yn llawn, gan efallai bydd y Bwrdd yn ei benderfynu yn unol â'r Ddeddf, neu fel sy'n ofynnol gan gynnig penodol o gyfranddaliadau, neu, os yn methu penderfyniad neu ofyniad o'r fath, yn un cyfranddaliad.
23. Gall Aelod ymgeisio am gyfranddaliadau mewn cyfrannau o gyfranddaliadau sy'n llai mewn nifer na lleiafswm cyfranddaliad, ar yr amod bod Aelod sy'n methu cyrraedd lleiafswm y cyfranddaliad o fewn 12 mis i'w taliad cyntaf, yn peidio â bod yn Aelod. Caiff unrhyw unigolyn sy'n peidio â bod yn Aelod dan y rheol hon werth eu cyfranddaliadau ar ddyddiad pryd y bu iddynt beidio â bod yn Aelod yn ôl a gohirir y cyfranddaliadau perthnasol.
24. Gall ceisiadau am gyfranddaliadau gael eu gwneud i Fwrdd y Gymdeithas a wnaiff randalu, pryd y derbynnir hwy, y cyfranddaliad neu'r cyfranddaliadau y maent wedi ymgeisio amdanynt ag Aelodau. Ar yr amod bod cyfanswm nifer y cyfranddaliadau a randelir ag unrhyw Aelod ddim yn mynd y tu hwnt i'r uchafswm cyfranddaliad a ganiateir gan y gyfraith. Telir am gyfranddaliadau yn llawn pan randelir hwy.
25. Os yw Aelod sydd angen tynnu aelodaeth yn ôl dan y Rheolau hyn yn methu trosglwyddo eu cyfranddaliadau a bod yr hawl i dynnu eu cyfranddaliadau yn ôl wedi cael ei hatal dros dro, yna bydd gwerth enwol eu cyfalaf cyfranddaliad yn cael ei throsi i stoc benthyciad ar delerau o'r fath fel y cytunir rhwng y Bwrdd a'r Aelod, neu eu cynrychiolydd neu ymddiriedolwr methdaliad personol neu Ddeiliad Swydd ar yr amod y bydd y fath gytundeb angen ad-dalu'r benthyciad o fewn cyfnod sydd ddim yn mynd y tu hwnt i dair mlynedd.
26. Bydd hawl i dynnu cyfranddaliadau yn ôl yn unol yn unig â darpariaethau'r Rheolau hyn. Ni ellir trosglwyddo cyfranddaliadau oni bai:
 - (a) Am farwolaeth neu fethdaliad; neu
 - (b) Am newid enwebw(yr) ac ond i enwebw(yr) newydd (yn achos corff neu bartneriaeth) anghorfforedig).

Tynnu cyfalaf a rennir yn ôl

27. Gall cyfranddaliadau gael eu tynnu gan Aelodau drwy roi tri mis o rybudd i'r Gymdeithas (er bod y Bwrdd yn cadw disgresiwn llwyr i ddychwelyd arian a dalwyd iddynt), ar yr amod bod:
- (a) Telir endyniannau yn y drefn y derbyniwyd yr hysbysiadau gan y Gymdeithas;
 - (b) Ni fydd gan Aelod hawl i endynnu cyfranddaliadau a fyddai'n eu gadael gyda llai na lleiafswm eu cyfranddaliad, oni bai eu bod yn bwriadu ddiddymu eu haelodaeth o'r Gymdeithas;
 - (c) Gall y Bwrdd hepgor yr hysbysiad sydd ei angen ar gyfer endyniant a gall gyfarwyddo taliad i gael ei wneud heb rybudd neu ar fyr-rybudd fel y gwelant yn addas;
 - (d) Gall y Bwrdd, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, atal yr hawl i endynnu arian un ai'n gyfan neu'n rhannol, ac unai am gyfnod amhenodol neu benodol. Gall yr ataliad ymestyn a bod yn berthnasol i holl hysbysiadau o endyniannau sydd wedi'u derbyn ac wedi parhau heb gael eu talu pan mae'r Bwrdd yn atal yr hawl i endynnu arian. Lle mae'r ataliad am gyfnod penodol, gall y cyfnod gael ei ymestyn o dro i dro gan y Bwrdd;
 - (e) Yn ystod unrhyw gyfnod pan mae'r hawl i endynnu arian wedi ei atal o dan yr amodau uchod, gall cynrychiolwyr personol Aelodau marw endynnu eu cyfranddaliadau, os cytuna'r Bwrdd, wedi rhoi'r hysbysiad y mae'r Bwrdd yn gofyn amdano;
 - (f) Y swm sydd i'w dalu i Aelod pan yn endynnu yw'r swm a delir neu a greddydir ar y cyfranddaliadau a endynnir, oni bai lle mae'r cyfranddaliadau yn amodol ar ostyngiad yn eu gwerth yn unol ag amodau'r Rheolau hyn;
 - (g) Bydd llog yn daladwy ar unrhyw gyfranddaliad mewn perthynas ag y bydd hysbysiad o ad-daliad wedi cael ei roi hyd ddyddiad yr ad-daliad.
28. Canslir unrhyw gyfranddaliad a endynnir yn unol â'r Rheolau hyn.
29. Gall aelodau dynnu yn ôl o'r Gymdeithas trwy endynnu eu holl gyfranddaliadau yn y Gymdeithas yn unol â'r Rheolau hyn neu os yw'r hawl i endynnu wedi ei atal, gan ildio eu cyfranddaliadau i'r Gymdeithas. Yn y fath ildiad, gall y Bwrdd yn eu disgresiwn dalu y swm a dalwyd neu a greddydwyd ar y cyfranddaliadau a ildiwyd i'r Aelod sy'n endynnu.
30. Gall y Gymdeithas ddidynnu y swm rhesymol i ofalu am unrhyw gostau gweinyddol o endynnu arian sy'n daladwy i Aelod wrth endynnu cyfranddaliadau yn y Gymdeithas.

Gostyngiad yng Ngwerthoedd Cyfranddaliadau

31. Os yw Archwilyr y Gymdeithas (neu gyfrifwyr cymwysedig annibynnol a benodir i'r diben hwn gan y Bwrdd) yn ardystio bod cyfanred rhwymedigaethau'r Gymdeithas ynghyd â swm o'i gyfalaf cyfranddaliadau a gyhoeddwyd yn mynd y tu hwnt i'w hasedau, yna (oni bai bod y tâl dros ben wedi cael ei ddisodli) gall y Bwrdd benderfynu y dylai swm y tâl dros ben hwn, neu rhan ohono, gael ei ddosrannu ymysg yr Aelodau yn gymesur (ond ddim tu hwnt) i swm gwerth enwol y cyfranddaliadau a dalwyd ac a ddaliwyd gan bob Aelod. Caiff y dosraniad hwn ei seilio ar werth y cyfranddaliadau a dalwyd ac a ddaliwyd gan bob Aelod ar amser cau'r busnes ar ddyddiad y fath benderfyniad. Gostyngir gwerth cyfranddaliadau a ddelir gan bob Aelod yn unol i ddibenion endynnu cyfranddaliadau, ar yr amod na ostyngir gwerth cyfranddaliadau a ddelir gan unrhyw Aelod islaw isafswm cyfranddaliadau fel y manylwyd yn y Rheolau hyn.

Hawlrwym ar Gyfranddaliadau a Hawl Gwneud Iawn

32. Bydd gan y Gymdeithas hawlrwym ar gyfranddaliadau Aelod am unrhyw ddyled sy'n ddyledus iddi gan yr Aelod a gall wneud iawn am unrhyw swm sy'n sefyll ar gredyd yr Aelod gyda'r Gymdeithas neu tuag at dalu'r fath ddyled.

CYFARFODYDD CYFFREDINOL

33. Bydd y Gymdeithas, o fewn chwe mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol, yn cynnal cyfarfod cyffredinol o'r Aelodau fel ei chyfarfod cyffredinol blynyddol a bydd yn manylu ar y cyfarfod pan hysbysir amdano.
34. Bydd busnes cyfarfod cyffredinol blynyddol yn cynnwys, lle bo'n briodol:
- (a) Derbyniadau y cyfrifon a mantolen ac adroddiadau'r Bwrdd a'r Archwilydd (os oes rhai);
 - (b) Penodi Archwilydd, os oes angen;
 - (c) Etholiad y Bwrdd neu ganlyniadau'r etholiad os cynhaliwyd yn gynharach gan bleidlais;
 - (d) Cymhwyso elw;
 - (e) Trafodiad o unrhyw fater arall a gynhwysir yn yr hysbysiad sy'n cynullo'r cyfarfod.

Galw Cyfarfod Cyffredinol

35. Gall yr Ysgrifennydd, ar gais Bwrdd y Cyfarwyddwyr, gynullo cyfarfod cyffredinol o'r Gymdeithas. Nodir diben y cyfarfod cyffredinol yn hysbysiad o'r cyfarfod.
36. Bydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr, wedi cael un rhan o ddeg o gyfanswm Aelodau, neu 100 o Aelodau, pa un bynnag sydd leiaf, i lofnodi cais a'i gyflwyno i swyddfa gofrestrdig y Gymdeithas, yn cynullo cyfarfod cyffredinol. Nodir diben y cyfarfod cyffredinol yn y cais am a hysbysiad o'r cyfarfod. Ni drinir unrhyw fater arall heblaw am yr hyn a nodir yn yr hysbysiad o'r cyfarfod yn y cyfarfod.
37. Os nad yw'r Bwrdd wedi cynullo cyfarfod o fewn chwe wythnos o fewn mis i ddyddiad derbyn y cais, gall tri Aelod o'r Gymdeithas weithredu ar ran llofnodwyr y cais a chynnal cyfarfod cyffredinol. Cânt eu had-dalu gan y Gymdeithas am unrhyw gostau a achoswyd wrth gynullo'r fath gyfarfod.

Hysbysiadau

38. Gall Cyfarwyddwyr alw cyfarfod cyffredinol blynyddol gyda 14 Diwrnod Clir o rybudd i holl Aelodau. Cynullir holl gyfarfodydd cyffredinol eraill gydag o leiaf 14 Diwrnod Clir o rybudd. Ond gellir ei gynnal ar fyr-rybudd os cytunir yn Ysgrifenedig gan 90% o'r Aelodau.
39. Gall hysbysiadau am gyfarfodydd gael eu rhoi un ai i Aelodau yn bersonol neu gael eu gyrru atynt i'w Cyfeiriadau neu fel arall, os cytunir gan y Gymdeithas yn y cyfarfod cyffredinol, gall hysbysiadau am gyfarfodydd cyffredinol gael eu harddangos yn amlwg yn y swyddfa gofrestrdig ac mewn lleoedd busnes eraill y Gymdeithas y mae gan Aelodau fynediad atynt. Dylai hysbysiadau nodi'r dyddiad, amser a lle y cynhelir y cyfarfod, a'r materion sydd i'w trafod yn y cyfarfod. Ni fydd cyfarfod cyffredinol yn trafod unrhyw faterion heblaw am y rhai a nodir yn yr hysbysiadau sy'n galw'r cyfarfod.
40. Bernir hysbysiad a yrrir i Gyfeiriad Aelod ei fod wedi ei roi 48 awr wedi ei bostio. Ni fydd hepgoriad damweiniol i yrru unrhyw hysbysiad at Unigolyn neu os nad yw'r Unigolyn wedi derbyn hysbysiad sydd â hawl derbyn hysbysiad yn annilysu'r trafodion yn y cyfarfod.
41. Noda holl hysbysiadau ddyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod ynghyd â natur gyffredinol y materion sydd i'w trin ac unrhyw benderfyniadau arfaethedig.
42. Os yw'r Gymdeithas wedi penodi Archwilydd yn unol â'r Rheolau hyn, bydd hawl ganddynt i fynyachu cyfarfodydd cyffredinol y Gymdeithas a derbyn holl hysbysiadau a chyfathrebiadau sy'n gysylltiedig ag unrhyw gyfarfod cyffredinol y mae gan unrhyw Aelod o'r Gymdeithas hawl eu derbyn. Bydd

gan yr Archwilydd hawl i gael eu clywed mewn unrhyw gyfarfod ar unrhyw rhan o'r mater sydd o bryder mawr i Archwilydd.

Cworwm

43. Ni ddylid trafod unrhyw fater mewn cyfarfod cyffredinol oni bai bod cworwm o Aelodau yn bresennol a ddylai gynnwys yr Aelodau sydd ddim yn bresennol. Oni bai y diwygir gan Benderfyniad Anarferol, bydd cworwm yn 3 Aelod neu 5% o'r aelodaeth, pa un bynnag sydd fwyaf.

Cadeirio Cyfarfodydd Cyffredinol

44. Bydd cadeirydd y Gymdeithas yn hwyluso cyfarfodydd cyffredinol. Os ydynt yn absennol neu yn methu gweithredu pan mae'n amser cyfarfod, yna mae'r Aelodau sy'n bresennol yn dewis un o'u nifer i fod yn gadeirydd y cyfarfod hwnnw.

Presenoldeb a Siarad mewn Cyfarfodydd Cyffredinol

45. Mae Aelod yn gallu ymarfer yr hawl i siarad mewn cyfarfod cyffredinol a bernir i fod yn bresennol pan mae'r Unigolyn hwnnw mewn sefyllfa i gyfathrebu i bawb sy'n mynychu'r cyfarfod. Gall y Cyfarwyddwyr wneud unrhyw drefniadau a ystyriant yn addas i alluogi'r rhai hynny sy'n mynychu cyfarfod cyffredinol i ymarfer eu hawliau i siarad neu bleidleisio gan gynnwys trwy Foddau Electronig. Gan benderfynu presenoldeb mewn cyfarfod cyffredinol, mae'n amherthnasol os yw dau neu fwy o Aelodau sy'n mynychu yn yr un lle a'i gilydd, ar yr amod eu bod yn gallu cyfathrebu a'i gilydd.
46. Gall cadeirydd y cyfarfod ganiatáu unigolion eraill sydd ddim yn Aelodau o'r Gymdeithas i fynychu a siarad mewn cyfarfodydd cyffredinol, heb ganiatáu hawliau pleidleisio.

Gohirio

47. Os nad yw cworwm yn bresennol o fewn hanner awr y mae'r cyfarfod cyffredinol i fod i ddechrau, neu os ydi cworwm yn peidio â bod yn bresennol mewn cyfarfod, mae'n rhaid i'r cadeirydd ohirio'r cyfarfod. Os nad yw cworwm yn bresennol o fewn hanner awr i pan oedd y cyfarfod a ohiriwyd i fod i ddechrau, rhaid i'r Aelodau sy'n bresennol fod yn gyfystyr â cworwm.
48. Gall cadeirydd ohirio cyfarfod cyffredinol tra mae cworwm yn bresennol os yw:
- (a) Y cyfarfod yn caniatáu'r gohiriad hwnnw; neu
 - (b) Os ymddengys i'r cadeirydd bod gohiriad yn angenrheidiol i warchod diogelwch unrhyw unigolion sy'n mynychu'r cyfarfod neu i sicrhau y trinnir materion y cyfarfod yn drefnus.

49. Rhaid i'r cadeirydd ohirio'r cyfarfod os cyfarwyddir i wneud hynny gan y cyfarfod.
50. Wrth ohirio cyfarfod, dylai'r cadeirydd nodi dyddiad, amser a lleoliad lle y gwnaiff aros yn ohiriedig neu bod y cyfarfod i barhau ar ddyddiad, amser a lle i gael ei sefydlu gan y Cyfarwyddwyr.
51. Os gohirir y cyfarfod am 14 diwrnod neu fwy, caiff o leiaf 7 Diwrnod Clir o hysbysiad ei roi yn yr un modd â hysbysiad y cyfarfod gwreiddiol.
52. Ni drafodir unrhyw fater mewn cyfarfod gohiriedig heblaw am faterion a allai wedi cael eu trafod yn y cyfarfod pe na bai wedi'i ohirio.

Pleidleisio

53. Penderfynir pleidleisio am benderfyniad mewn cyfarfod cyffredinol trwy godi dwylo oni bai y mynnir cael pleidlais bapur yn unol â'r Rheolau hyn. Bydd datganiad gan y cadeirydd bod penderfyniad wedi cael ei basio neu ei fethu trwy godi dwylo yn dystiolaeth bendant o'r canlyniad, ynghyd â chofnod yn y cofnodion. Ni fydd angen cofnodi cyfran neu nifer pleidleisiau o blaid neu yn erbyn.
54. Yn achos pleidleisiau cyfartal, boed wrth godi dwylo neu bôl piniwn, ni chaiff y cadeirydd ail bleidlais na phleidlais fwrw. Bernir bod y penderfyniad wedi'i gollu.

Pleidlais Bapur

55. Efallai y mynnir cael pleidlais bapur cyn neu pan gyhoeddir y canlyniad codi dwylo gan dri Aelod mewn cyfarfod cyffredinol.
56. Os mynnir pleidlais bapur yn briodol, fe'i cymerir yn y modd a gyfarwydda'r cadeirydd, ar yr amod nad yw Aelod yn cael mwy nag un bleidlais. Bernir canlyniad y bleidlais bapur i fod yn benderfyniad y cyfarfod y mynnwyd y bleidlais.
57. Ni ddylai'r galw am bleidlais bapur osgoi parhau cyfarfod ar gyfer trafod unrhyw fater arall heblaw am y cwestiwn y bydd y bleidlais wedi cael ei mynnu. Gall y galw am bleidlais bapur gael ei dynnu yn ôl.

Penderfyniadau

58. Gwneir penderfyniadau mewn cyfarfodydd cyffredinol trwy basio penderfyniad:

(a) Rhaid i'r penderfyniadau canlynol gael eu gwneud gan Benderfyniad Anarferol:

- (i) Penderfyniadau i ddiarddel Aelodau;
- (ii) Unrhyw ddiwygiad i Reolau'r Gymdeithas, sy'n amodol bob tro ar reoliad 7 o Reoliadau Gymdeithasau Budd Cymunedol (Cyfyngiad ar ddefnyddio Asedau) 2006, sydd â'r effaith o wneud rheol 'Cais Enillion' gan drin gyda'r cyfyngiad ar ddefnyddio asedau yn ddiwrthdro.
- (iii) Y penderfyniad i ddirwyn y Gymdeithas i ben.

(b) Caiff holl benderfyniadau eraill eu gwneud gan benderfyniad arferol.

59. Penderfyniad Anarferol yw un a basir gan fwyafrif o ddim llai na 75% o bleidleisiau a fwrir mewn cyfarfod cyffredinol. Penderfyniad arferol yw un a basiwyd gan fwyafrif syml (51%) o bleidleisiau a fwriwyd.

60. Gall penderfyniadau gael eu pasio mewn cyfarfod cyffredinol neu gan benderfyniad ysgrifenedig. Efallai y bydd penderfyniad ysgrifenedig yn cynnwys sawl Dogfen union yr un fath wedi'u llofnodi gan un neu fwy o Aelodau.

CYFARWYDDWYR

61. Bydd gan y Gymdeithas Fwrdd o Gyfarwyddwyr sy'n cynnwys dim llai na thri Cyfarwyddwr.

62. Penodir Cyfarwyddwyr cychwynnol y Gymdeithas o gofrestru hyd y cyfarfod cyffredinol cyntaf gan yr Aelodau Sylfaenol.

63. Dim ond unigolion y Gymdeithas sy'n 18 oed neu'n hŷn a all wasanaethu ar Fwrdd y Cyfarwyddwyr.

64. Etholir Bwrdd y Cyfarwyddwyr gan ac oddi wrth Aelodau'r Gymdeithas. Penderfynir ar uchafswm nifer y Cyfarwyddwyr sy'n gwasanaethu ar y Bwrdd gan gyfarfod cyffredinol o'r Gymdeithas o dro i dro.

Cylch Ymgilio

65. Yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol cyntaf, bydd holl Gyfarwyddwyr etholedig yn ymgilio. Ym mhob cyfarfod cyffredinol blynyddol wedi hynny bydd un rhan o dair o'r Cyfarwyddwr etholedig, neu os yw eu nifer yn luosrif o dri yna'r rhif agosaf i un rhan o dair, yn ymgilio o'u swydd. Y Cyfarwyddwyr i ymgilio yw'r Cyfarwyddwyr sydd wedi bod mewn swydd hiraf ers eu hetholiad diwethaf. Lle

mae Cyfarwyddwyr wedi dal swydd am yr un hyd o amser, penderfynir ar y Cyfarwyddwyr sydd i ymgilio trwy fwrw coelbren. Gall Cyfarwyddwr sy'n ymgilio fod yn gymwys i gael ei ail-ethol.

Cyfethol Cyfarwyddwyr

66. Yn ychwanegol, gall Bwrdd y Cyfarwyddwyr gyfethol hyd at ddau Gyfarwyddwr annibynnol allanol sydd ddim angen bod yn Aelodau ac a ddewisir oherwydd eu sgiliau penodol ac/neu brofiad. Bydd y Cyfarwyddwyr annibynnol allanol yn gwasanaethu cyfnod sefydlog a benderfynir gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar amser y cyfetholiad, yn amodol ar adolygiad bob 12 mis o leiaf. Gall Cyfarwyddwyr annibynnol allanol gael eu disodli o'u swydd unrhyw bryd gan benderfyniad Bwrdd y Cyfarwyddwyr.
67. Gall Bwrdd y Cyfarwyddwyr lenwi swydd wag achlysurol unrhyw bryd ar y Bwrdd gan gyfetholiad. Mae'n rhaid i unigolion cyfetholedig fod yn Aelodau o'r Gymdeithas a byddant yn dal swydd Cyfarwyddwr ond hyd y cyfarfod cyffredinol blynyddol nesaf.

Grymoedd a Dyletswyddau Bwrdd y Cyfarwyddwyr

68. Rheolir materion y Gymdeithas gan y Bwrdd a all ymarfer holl rymoedd y Gymdeithas o'r fath a all gael eu hymarfer a'u gwneud gan y Gymdeithas, gan nad yw'n angenrheidiol gan statud neu gan y Rheolau hyn i'w hymarfer neu eu gwneud gan y Gymdeithas mewn cyfarfod cyffredinol.
69. Bydd holl benderfyniadau a wneir gan gyfarfod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr neu gan unrhyw unigolyn sy'n gweithredu fel Cyfarwyddwr yn parhau'n ddilys hyd yn oed os canfyddir yn ddiweddarach bod rhyw ddiffyg ym mhenodiad y Cyfarwyddwr neu bod yr unigolyn wedi eu diarddel o'r blaen fel gweithredu fel Cyfarwyddwr.
70. Llofnodir, codir, derbynnir, cymeradwyir neu fel arall gwneir holl sieciau, addawebion, drafftiau, biliau cyfnewid a chyfryngau eraill sy'n agored i drafodaeth, a holl dderbynebaw am arian a delir i'r Gymdeithas yn y fath fodd a gyfarwydda'r Bwrdd o dro i dro.
71. Heb niweidio ei rymoedd cyffredinol, gall y Bwrdd ymarfer holl rymoedd y Gymdeithas i fenthg arian a morgeisio neu godi tâl ar ei hymrwymadau neu eiddo neu unrhyw ran ohoni a gyrru dyledebau a gwarantau eraill boed yn llwyr neu fel gwarant am unrhyw ddyled, atebolrwydd neu rwymedigaeth y Gymdeithas neu unrhyw drydydd parti.
72. Ni ddylai unrhyw Reoliad a wneir gan y Gymdeithas annilysu unrhyw weithred flaenorol y Bwrdd a fyddai wedi bod yn ddilys pe na bai'r Rheoliad wedi cael ei wneud.

Dirprwyo

73. Yn amodol ar y Rheolau hyn, gall y Cyfarwyddwyr ddirprwyo unrhyw un o'r grymoedd a roddir iddynt o dan y Rheolau hyn i unrhyw Unigolyn neu bwyllgor sy'n cynnwys Aelodau o'r Gymdeithas, drwy unrhyw gyfrwng, i ryw raddau, mewn perthynas i'r fath faterion ac ar y fath amodau a thelerau a welant i fod yn addas.
74. Gall y Cyfarwyddwyr fanylu y gall y fath ddirprwyaeth awdurdodi dirprwyaeth bellach o'r grymoedd gan unrhyw Unigolyn y maent yn eu ddirprwyo.
75. Gall y Cyfarwyddwyr ddirymu unrhyw ddirprwyaeth yn gyfan neu'n rhannol i newid unrhyw delerau ac amodau.

Is-Bwyllgorau

76. Rhaid i is-bwyllgor y mae'r Cyfarwyddwyr yn dirprwyo eu grymoedd iddo ddilyn gweithdrefnau sy'n seiliedig cyn belled ag eu bod yn berthnasol ar y darpariaethau hynny o'r Rheolau hyn sy'n rheoli gwneud penderfyniadau gan Gyfarwyddwyr.
77. Gall y Cyfarwyddwyr wneud Rheoliadau i holl neu unrhyw is-bwyllgorau, ar yr amod nad yw'r Rheoliadau yn anghyson â'r Rheolau hyn.
78. Rhaid i holl ddeddfau a gweithdrefnau unrhyw is-bwyllgor gael eu hadrodd yn llawn a phrydlon i'r Cyfarwyddwyr.

GWEITHDREFNAU BWRDD Y CYFARWYDDWYR

Galw Cyfarfod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr

79. Gall Cyfarwyddwr, a caiff yr Ysgrifennydd ar gais Cyfarwyddwr, alw cyfarfod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr trwy roi hysbysiad rhesymol o'r cyfarfod i'r holl Gyfarwyddwyr. Dylai hysbysiad o unrhyw gyfarfod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod ac os na fydd Cyfarwyddwyr sy'n cyfrannu i'r cyfarfod yn yr un lle, sut fyddent yn cyfathrebu a'i gilydd.

Trafodion Cyfarfod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr

80. Gall Bwrdd y Cyfarwyddwyr gyfarfod a'i gilydd ar gyfer anfon materion, gohirio ac fel arfer rheoleiddio eu cyfarfod fel a welant yn addas.
81. Mae gan Gyfarwyddwr hawl i siarad mewn cyfarfod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr ac ystyrir i fod yn bresennol pan mae'r unigolyn hwnnw mewn sefyllfa i gyfathrebu â'r rhai sy'n mynychu'r cyfarfod. Gall y Cyfarwyddwyr wneud pa

bynag drefniadau a ystyriant yn briodol i alluogi y rhai hynny sy'n mynychu cyfarfod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr i ymarfer eu hawliau i siarad neu bleidleisio amdanynt gan gynnwys trwy Ddulliau Electronig. Wrth benderfynu ar bresenoldeb mewn cyfarfod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr, mae'n amherthnasol os yw dau neu fwy o Gyfarwyddwyr sy'n mynychu yn yr un lle â'i gilydd.

82. Penderfynir ar gwestiynau sy'n codi mewn unrhyw gyfarfod gan fwyafrif o bleidleisiau. Yn achos pleidleisiau cyfartal, cedwir y sefyllfa bresennol a gall Bwrdd y Cyfarwyddwyr ddewis cyfeirio'r mater i gyfarfod cyffredinol o'r Gymdeithas.
83. Gall penderfyniad ysgrifenedig, a gylchredir i holl Gyfarwyddwyr a'i lofnodi gan fwyafrif syml (51%) o Gyfarwyddwyr, fod yn ddilys ac effeithiol fel pe bai wedi ei basio mewn cyfarfod Bwrdd a gynullwyd ac a gynhaliwyd yn briodol. Gall penderfyniad ysgrifenedig gynnwys sawl Dogfen yr union yr un fath wedi'u llofnodi gan fwy nag un Cyfarwyddwr.
84. Gall Bwrdd y Cyfarwyddwyr, yn ôl ei ddisgresiwn, wahodd unigolion eraill i fynychu ei gyfarfodydd gyda neu heb hawliau siarad a phleidleisio. Ni gyfrifir y fath fynychwyr tuag at y cworwm.

Cworwm

85. Y cworwm sy'n angenrheidiol ar gyfer trafod materion mewn cyfarfod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr yw 50% o'r Cyfarwyddwyr neu 3 Cyfarwyddwr, pa un bynnag sydd fwyaf. Caiff gynnwys y Cyfarwyddwyr hynny sydd yn absennol yn bersonol.
86. Os ar unrhyw amser mae cyfanswm nifer o Gyfarwyddwyr mewn swydd yn llai na'r cworwm angenrheidiol, nid yw'r Cyfarwyddwyr yn gallu cymryd unrhyw benderfyniadau oni bai am benodi Cyfarwyddwyr pellach neu alw cyfarfod cyffredinol i alluogi'r Aelodau i benodi Cyfarwyddwyr pellach.

Cadeirio Cyfarfodydd Bwrdd

87. Gall y cadeirydd hwyluso cyfarfodydd o Fwrdd y Cyfarwyddwyr. Os ydynt yn absennol neu'n methu gweithredu pryd mae unrhyw gyfarfod yn mynd rhagddo, yna gall y Cyfarwyddwyr ddewis un o'u nifer i fod yn gadeirydd y cyfarfod hwnnw.

Datganiad o Fuddiant

88. Gall Cyfarwyddwyr ddatgan buddiant mewn unrhyw gontract neu fater y maent â diddordeb personol, perthnasol neu ariannol ynddo, bod yn uniongyrchol neu anuniongyrchol. Nid oes rhaid iddynt bleidleisio mewn perthynas â'u hamodau a thelerau cyflogaeth neu unrhyw fater cysylltiedig.

Costau

89. Caiff y Gymdeithas dalu unrhyw gostau rhesymol a dynna'r Cyfarwyddwyr mewn cysylltiad â'u presenoldeb mewn cyfarfodydd neu fel arall mewn cysylltiad gydag ymarfer eu grymoedd a rhyddhau eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Gymdeithas.

Diddymu Penodiad Cyfarwyddwr

90. Mae unigolyn yn peidio â bod yn Gyfarwyddwr o'r Gymdeithas cyn gynted â:

- (a) Bod yr unigolyn yn ymddiswyddo o'u swydd gan Ysgrifennu at Ysgrifennydd y Gymdeithas, a bod yr ymddiswyddiad yn dod i rym yn unol â'i dermau;
- (b) Y disodlir yr unigolyn o'r swydd gan benderfyniad arferol y Gymdeithas mewn cyfarfod cyffredinol sef yr hysbysiadau a fanylodd bod y cwestiwn o ddisodli'r Cyfarwyddwr wedi'i ystyried;
- (c) Y gwaherddir yr unigolyn rhag bod yn Gyfarwyddwr yn ôl y gyfraith;
- (d) Bod yr unigolyn wedi'u anghymwyso rhag gweithredu fel ymddiriedolwr yn rhinwedd adrannau 178 a 179 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu unrhyw ail-gread statudol neu addasu y darpariaethau hynny);
- (e) Bod gorchymyn methdaliad yn cael ei wneud yn erbyn yr unigolyn hwnnw;
- (f) Bod yr unigolyn yn anghymwys yn gorfforol neu feddyliol i weithredu fel Cyfarwyddwr a gall barhau fel hynny am fwy na thri mis, yn dilyn barn ysgrifenedig a roddir i'r Gymdeithas gan ymarferydd meddygol cofrestredig sy'n trin yr unigolyn hwnnw.

SWYDDOGION

91. Gall y Bwrdd ethol cadeirydd ac Ysgrifennydd ymysg eu nifer eu hunain a Swyddogion eraill o'r fath fel y gwnânt benderfynu o dro i dro. Caiff y Swyddogion y fath ddyletswyddau a hawliau fel y gellir eu cyflwyno iddynt gan y Bwrdd neu gan gyfraith. Gall unrhyw Swyddog a benodir gael eu disodli gan y Bwrdd. Rhaid i Swyddog sy'n gwasanaethu na chaiff ei ailethol i'r Bwrdd yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol serch hynny barhau yn eu swydd hyd y cyfarfod Bwrdd cyntaf yn dilyn y cyfarfod cyffredinol blynyddol.

ANGHYDFODAU

92. Mewn anghydfod rhwng y Gymdeithas neu ei Bwrdd ac Aelod o'r Gymdeithas neu gyn Aelod, cyfeirir yr anghydfod at gyfryngwr annibynnol y mae eu penodiad yn dderbyniol i'r ddau barti i'r anghydfod neu yn absenoldeb cytundeb i'w enwebu gan Ysgrifennydd Cyffredinol Co-operatives UK (neu unrhyw rôl neu gorff sy'n llwyddo â'i swyddogaeth). Bydd penderfynu ar gyflafareddwr yn derfynol. Pan na ellir datrys anghydfod, am ba bynnag reswm, wedi cyfeirio at gyflafareddwr, gellir cyfeirio y mater at y llys sirol (neu yn Yr Alban, y siryf). Os oes angen, mae'n rhaid i unrhyw Unigolyn sy'n dod ag anghydfod, flaendalu swm rhesymol gyda'r Gymdeithas (dim mwy na £100) i'w benderfynu gan y Bwrdd. Gwnaiff y cyflafareddwr benderfynu sut y telir costau y cyflafareddu a beth ddylid ei wneud gyda'r blaendal.
93. Gall y Gymdeithas mewn cyfarfod cyffredinol, neu Fwrdd y Cyfarwyddwyr, wneud, mabwysiadu neu newid Rheoliadau o dro i dro ar ffurf is-ddeddfau, rheolau sefydlog, rheolau eilaidd neu fel arall fel y gwelant yn addas ar gyfer rheoli, cynnal a rheoleiddio materion y Gymdeithas a gweithdrefnau a grymoedd Bwrdd y Cyfarwyddwyr ac is-bwyllgorau. Gall y fath Rheoliadau (os oes rhai) gael eu gwneud ar gael i Aelodau. Ni ellir gwneud Rheoliad sy'n anghyson â'r Rheolau hyn neu'r Ddeddf. Clymir holl Aelodau'r Gymdeithas a Bwrdd y Cyfarwyddwyr gan y fath Rheoliadau os ydynt wedi derbyn copi ohonynt ai peidio.

ATEBOLRWYDD MATERION

94. Cyfyngir atebolrwydd Aelod i faint eu cyfranddaliad.

TALU LLOG AR GYFALAF A RENNIR

95. Efallai y gwnaiff y Gymdeithas dalu llog ar cyfalaf cyfranddaliadau a rennir ar y fath gyfradd neu gyfraddau a benderfynir gan y Bwrdd o dro i dro, ond ddim y tu hwnt i'r gyfradd leiaf sydd ei hangen ym marn y Bwrdd i gael a chadw y cyfalaf sydd ei angen i gyflwyno amcanion y Gymdeithas.

CYMHWYSO ELW

96. Gwobrwyir Aelodau'r Gymdeithas yn bennaf trwy randal cymdeithasol yn hytrach na rhandal ariannol. Cymhwysir unrhyw elw y Gymdeithas fel a ganlyn mewn cyfrannau o'r fath ac yn y fath fodd fel y penderfynir gan y Gymdeithas yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol:
- (a) I gronfa gyffredinol wrth gefn ar gyfer parhau a datblygu'r Gymdeithas; neu
 - (b) I dalu i ddiben cymdeithasol neu gymunedol o fewn y gymuned a wasanaethir gan y Gymdeithas.

CLOI ASED AU

97. Gan dilyn rheoliadau a wneir o dan adran 1 o Ddeddf Cydweithfeydd a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2003, mae holl asedau'r Gymdeithas yn amodol ar gyfyngiad ar eu defnydd. Ni ddylai'r Gymdeithas ddefnyddio na thrin ei asedau oni bai:

- (a) Lle mae defnydd neu driniaeth, yn uniongyrchol neu anuniongyrchol, i ddiben sydd o fudd i'r gymuned;
- (b) I dalu i Aelod o'r Gymdeithas werth eu cyfalaf cyfranddaliadau a endynnir neu log ar y fath gyfalaf;
- (c) I wneud taliad yn dilyn adrannau 36 (taliadau mewn perthynas ag unigolion â diffyg cynnwys), 37 (enwebiad gan Aelodau i hawlio eiddo yn y Gymdeithas ar farwolaeth Aelod) a 40 (marwolaeth Aelod: dosbarthu eiddo sydd ddim yn fwy na £5000) o'r Ddeddf;
- (d) I wneud taliad yn unol â Rheolau y Gymdeithas i ymddiriedolwyr eiddo Aelodau sy'n fethdalwyr. Neu yn Yr Alban, Aelodau y mae eu hystâd wedi'i difeddiannu;
- (e) Y dirwynir y Gymdeithas i ben, i dalu ei chredydwyr; neu
- (f) I drosglwyddo ei hasedau i un neu o'r canlynol:
 - (i) cymdeithas budd cymunedol rhagnodedig y mae ei hasedau wedi cael ei gwneud yn amodol ar gyfyngiad ar ddefnydd ac a fydd yn cymhwyso'r cyfyngiad i unrhyw asedau a drosglwyddwyd felly;
 - (ii) cwmni budd cymunedol;
 - (iii) tirfeddiannwr cymdeithasol cofrestredig sydd â chyfyngiad ar ddefnyddio eu hasedau sy'n cyfateb i gyfyngiad ar ddefnydd ac a fydd yn berthnasol bod unrhyw gyfyngiad i unrhyw asedau yn cael eu trosglwyddo;
 - (iv) elusen (gan gynnwys cymdeithas budd cymunedol sy'n elusen); neu
 - (v) corff, a sefydlwyd yng Ngogledd Iwerddon neu Wladwriaeth heblaw am y Deyrnas Unedig, sy'n cyfateb i unrhyw un o'r Unigolion hynny.

CYFUNO, TROSGLWYDDO YMGYSYLLTIADAU A THRAWSNEWIDIADAU

98. Efallai y gwnaiff y Gymdeithas, gyda phenderfyniad arbennig yn y ffordd sy'n ofynnol gan adran 111 o'r Ddeddf, gyfuno, neu drosglwyddo ei hymgysylltiadau i gymdeithas gofrestredig arall i o leiaf yr un graddau o gyfyngiad ar ddsbarthu elw ac asedau fel a osodir ar y Gymdeithas hon yn rhinwedd y Rheolau hyn. Efallai y bydd y Gymdeithas yn derbyn trosglwyddiad o ymgysylltiadau ac asedau gan benderfyniad y Bwrdd neu gan gyfarfod cyffredinol.

99. Efallai y gwnaiff y Gymdeithas, gyda phenderfyniad arbennig yn y ffordd sy'n ofynnol gan adran 113 o'r Ddeddf, gyfuno, neu drosglwyddo ei hymgysylltiadau i gymdeithas gofrestredig arall i o leiaf yr un graddau o gyfyngiad ar ddsbarthu elw ac asedau fel a osodir ar y Gymdeithas hon yn rhinwedd y Rheolau hyn. Mewn perthynas â galw cyfarfod cyffredinol i ddiben y fath benderfyniad, bydd y darpariaethau canlynol yn berthnasol:

(a) Bydd y Gymdeithas yn rhoi dim llai na deufis o rybudd i Aelodau am y cyfarfod;

(b) Cyhoeddir hysbysiad o'r cyfarfod mewn lle amlwg yn y swyddfa gofrestredig ac ym mhob safle masnachu y Gymdeithas y mae gan Aelodau fynediad atynt;

(c) Ceir gyda'r hysbysiad gyhoeddiad ar wahân yn amlinellu i Aelodau:

(i) rhesymau am y cynnig;

(ii) p'un ai oes gan y cynnig gefnogaeth Bwrdd y Gymdeithas;

(iii) pa gynigion eraill sydd wedi eu hystyried, ac a ydynt yn hyfyw;

(iv) manylion o'r nifer o gyfranddaliadau yn y Gymdeithas a ddelir gan Aelodau o'r Bwrdd, a'r Unigolion sy'n gysylltiedig â hwy;

(v) argymhelliad gan ymgynghorwyr ariannol annibynnol ag enw da y dylai Aelodau gefnogi'r cynnig yn hytrach nag unrhyw gynnig arall.

(d) Tra mae'r cyhoeddiad ar wahân o fewn Dogfen arall, rhoir gwybodaeth yn yr hysbysiad yn manylu lle gall Aelodau gael copi o'r Ddogfen.

DIDDYMU

100. Gellir diddymu y Gymdeithas:

(a) yn unol ag adran 119 o'r Ddeddf trwy gyfrwng diddymu;

- (b) yn unol ag adran 123 o'r Ddeddf yn dilyn gorchymyn diweddu neu benderfyniad a wnaed neu a basiwyd fel a gyfarwyddwyd mewn perthynas â chwmnïau gan ddeddf ansolfedd 1986; neu
- (c) yn unol ag adran 125 o'r Ddeddf, wedi i weinyddiad a gweinyddwyr gyhoeddi hysbysiad i ddiddymu'r gymdeithas heb ddiweddu blaenorol.

101. Os, wrth ddiweddu neu ddiddymu y Gymdeithas, y parha unrhyw o'i hasedau i'w gwaredu wedi i'w rhwymedigaethau gael eu bodloni, ni ddosberthir yr asedau ymysg yr aelodau, ond yn hytrach i gorff neu gyrff di-elw sy'n amodol i'r un graddau ar gyfyngiad ar ddosbarthu elw ac asedau â'r Gymdeithas hon yn ôl rhinweddau'r Rheolau hyn, fel a benderfynir efallai gan aelodau ar y pryd neu cyn y diddymiad.

TREFNIADAU GWEINYDDOL

Ffyrdd o Gyfathrebu

102. Gall Aelod roi eu sêl bendith i dderbyn cyfathrebiadau gan y Gymdeithas trwy Ddulliau Electronig.
103. Bernir hysbysiad a yrrir i Gyfeiriad Cyfarwyddwr i fod wedi ei roi 48 awr wedi ei bostio. Gall Cyfarwyddwr gytuno â'r Gymdeithas bod hysbysiadau neu Ddogfennau a yrrir iddynt hwy mewn ffordd benodol i'w barnu wedi'u derbyn o fewn amser penodol wedi iddynt gael eu hanfon, ac am yr amser penodol i fod yn llai na 48 awr.

Sêl

104. Os oes gan y Gymdeithas sêl, fe'i defnyddir ond gan awdurdod Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n gweithredu ar ran y Gymdeithas. Y mae pob cyfrwng y mae'r sêl ynghlwm ynddynt i'w llofnodi gan Gyfarwyddwr a'u cydlofnodi gan ail Gyfarwyddwr neu'r Ysgrifennydd.

Cofrestrau

105. Gwnaiff y Gymdeithas sicrhau y cedwir cofrestrau cywir a fydd yn cynnwys cofrestr Aelodau, cofrestr Cyfarwyddwyr a chofrestr Swyddogion.

Cofrestr Aelodau

106. Sicrha y Bwrdd y cedwir y gofrestr yn unol â'r Ddeddf a bod y manylion sydd eu hangen gan y Ddeddf ar gael i'w harchwilio a bod mynediad atynt heb orfod ddatgelu manylion eraill a geir yn y gofrestr.

Cofrestr Cyfarwyddwyr a Swyddogion

107. Gwnaiff y Gymdeithas gadw cofrestr o Gyfarwyddwyr a Swyddogion a fydd yn cynnwys y manylion canlynol:

(a) Enw'r Cyfarwyddwr;

(b) Cyfeiriad y Cyfarwyddwr;

(c) Dyddiad pryd y dechreusant y swydd;

(d) Dyddiad pryd y gadawsant y swydd; ac

(e) Y safle a ddaliwyd gan Gyfarwyddwr os ydynt hefyd yn Swyddog ar y dyddiad pryd y dechreusant a gadawsant eu swydd fel Swyddog.

Newidiadau i Reolau

108. Yn amodol bob tro ar reoliad 7 o Reoliadau (Cyfyngiad ar Ddefnyddio Asedau) Cymdeithasau Budd Cymunedol 2006, sydd â'r effaith o wneud y rheol 'Cymhwyso Elw' sy'n trin y cyfyngiad ar ddefnyddio asedau yn ddigyfnewid, gall unrhyw un o'r Rheolau hyn gael eu diddymu neu eu newid neu gwneir rheol newydd gan Benderfyniad Anarferol mewn cyfarfod cyffredinol y mae 14 Diwrnod Clir wedi eu rhoi. Mae'r fath rybudd i gynnwys manylion o'r newid(iadau) a gynigir yn y cyfarfod. Nid yw unrhyw newid i Reolau yn ddilys hyd y cofrestrir gan y Cofrestrydd. Wrth gyflwyno diwygiadau'r rheolau ar gyfer eu cofrestru, gall yr Ysgrifennydd yn ôl eu disgrisiwn llwyr dderbyn unrhyw addasiadau sy'n ofynnol neu a awgrymir gan y Cofrestrydd heb gyfeiriad yn ôl i gyfarfod cyffredinol pellach o'r Gymdeithas.

Copïau o Reolau'r Gymdeithas

109. Rhwir copi o'r Rheolau hyn ac unrhyw newidiadau iddynt am ddim i bob Aelod wedi derbyn aelodaeth. Rhwir i unrhyw Unigolyn arall ar alw ac ar dâl y ffi statudol sy'n drethadwy am y cyfnod o fod mewn grym.

Cofnodion

110. Gall y Gymdeithas sicrhau bod y cedwir holl gofnodion:

(a) Trafodion yng nghyfarfodydd cyffredinol y Gymdeithas; a

(b) Trafodion yng nghyfarfodydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr a'i is-bwyllgorau sy'n cynnwys enwau'r Cyfarwyddwyr sy'n bresennol, penderfyniadau a wneir a'r rhesymau am y penderfyniadau hynny.

Ffurflen Flynyddol

111. Bob blwyddyn ac o fewn y cyfnod a ragnodir gan y Ddeddf, gyrra'r Ysgrifennydd y ffurflen flynyddol yn y ffurflen a ragnodir at y Cofrestrydd. Gyda'r ffurflen flynyddol bydd:
- (a) Copi o adroddiad yr Archwilydd ar gyfrifon y Gymdeithas am y cyfnod a gwmpesir gan y ffurflen flynyddol neu gopi o fath arall o adroddiad (os oes) fel sy'n ofynnol gan statud am y fath gyfnod; a
 - (b) Copi o bob mantolen a wnaed yn ystod y cyfnod hwnnw ac adroddiad o'r Archwilydd neu unigolyn priodol arall fel sy'n ofynnol gan statud ar y fantolen honno.
112. Gwnaiff y Gymdeithas, yn ôl y galw, roi copi am ddim o'r ffurflen flynyddol ddiweddaraf i unrhyw Aelod neu unigolyn sydd â diddordeb yng nghronfeydd y Gymdeithas, ynghyd â chopi o adroddiad yr Archwilydd ar y cyfrifon a'r fantolen a geir yn y ffurflen flynyddol ac Adroddiad yr Archwilydd (os oes).
113. Gwnaiff y Gymdeithas ar brydiau, yn ôl y galw, gadw copi o'r fantolen ddiweddaraf y Gymdeithas ynghyd â chopi o adroddiad cyfatebol yr Archwilydd (os oes) a'i hongian mewn lle amlwg yn y swyddfa gofrestrdig ac fe'i arddangosir ar wefan y Gymdeithas (os oes).

Archwiliad

114. Oni bai bod y Gymdeithas yn cwrdd â'r meini prawf a amlinellwyd yn adran 82(2) o'r Ddeddf neu'n datgymhwyso y gofyniad archwilio yn unol ag adran 84 o'r Ddeddf, gwnaiff y Bwrdd benodi Archwilydd bob blwyddyn ariannol fel sy'n ofynnol gan adran 83(1) o'r Ddeddf, i archwilio cyfrifon a mantolen y Gymdeithas am y flwyddyn. Mae'r ddarpariaeth hon hefyd yn gymwys os yw'r Gymdeithas yn ei blwyddyn ariannol gyntaf.
115. Ni benodir yr unigolion canlynol fel Archwilydd y Gymdeithas:
- (a) Swyddog neu Weithiwr i'r Gymdeithas;
 - (b) Unigolyn sy'n bartner neu weithiwr i, neu sy'n cyflogi, Swyddog o'r Gymdeithas.
116. Gall y Bwrdd benodi Archwilydd i lenwi swydd wag achlysurol sy'n digwydd rhwng cyfarfodydd.
117. Ailbenodir Archwilydd ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol fel Archwilydd y Gymdeithas ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol oni bai:

- (a) Bod penderfyniad wedi ei wneud gan y Bwrdd i benodi Archwilydd arall neu wedi penderfynu'n benodol na phenodir hwy; neu
- (b) Maent wedi hysbysu yr Ysgrifennydd yn ysgrifenedig eu amharodwydd i gael eu hail-benodi; neu
- (c) Maent yn anghymwys ar gyfer eu penodi fel Archwilydd y Gymdeithas am y flwyddyn ariannol bresennol; neu
- (d) Maent wedi peidio â gweithredu fel Archwilydd y Gymdeithas oherwydd analluogrwydd.

118. Ni fydd penderfyniad arferol cyfarfod cyffredinol o'r Gymdeithas i unai ddisodli Archwilydd o'u swydd neu benodi unigolyn arall fel Archwilydd mewn bod oni bai bod hysbysiad o'r penderfyniad a gynigir wedi cael ei roi i'r Gymdeithas o leiaf 28 diwrnod cyn y cyfarfod pryd yr ystyrir y penderfyniad. Bydd rhaid rhoi hysbysiad o 14 diwrnod wedyn i Aelodau'r Gymdeithas yn y modd a ragnodwyd yn y Rheolau hyn ac yn Ysgrifenedig at yr Archwilydd/wyr.

Cyfrifyddu ac Adrodd Cymdeithasol

119. Yn ychwanegol at unrhyw gyfrifon ariannol sy'n ofynnol gan y Ddeddf, gall yr Aelodau benderfynu ymgymryd ag ystyriaeth o weithgareddau y Gymdeithas a fydd yn ymdrechu i fesur ei pherfformiad cymdeithasol ac amgylcheddol trwy ddefnyddio pa bynnag fethodoleg a wêl yr Aelodau i fod yn addas. Yn dilyn cwblhau y fath ystyriaeth, gwnaiff y Gymdeithas adrodd am unrhyw ganfyddiadau i'w Haelodau a rhanddeiliaid eraill.

Indemniad ac Yswiriant

120. Yn amodol ar y rheol ddilynol, digolledir unrhyw Gyfarwyddwr neu gyn Gyfarwyddwr o asedau'r Gymdeithas yn erbyn:

- (a) Unrhyw rwymedigaeth a achosir gan y Cyfarwyddwr hwnnw mewn cysylltiad ag unrhyw esgeulustod, diffyg, tor-dyletswydd neu dor-ymdiriedaeth mewn perthynas â'r Gymdeithas;
- (b) Unrhyw rwymedigaeth a achosir gan y Cyfarwyddwr hwnnw mewn cysylltiad â'r Gymdeithas yn eu swydd fel ymddiriedolwr o gynllun pensiwn galwedigaethol;
- (c) Unrhyw rwymedigaeth arall a achosir gan y Cyfarwyddwr hwnnw fel Swyddog o'r Gymdeithas.

121. Nid yw'r rheol uchod yn awdurdodi unrhyw indemniad a waherddid neu a oedd yn ddi-rym gan unrhyw ddarpariaeth o gyfraith.

122. Gall y Cyfarwyddwyr benderfynu prynu a chadw yswiriant, ar draul y Gymdeithas, er budd unrhyw Gyfarwyddwr neu gyn Gyfarwyddwr o'r Gymdeithas mewn perthynas ag unrhyw golled neu rwymedigaeth sydd wedi neu y gall ei achosi gan y fath Gyfarwyddwr mewn perthynas â'u dyletswyddau neu rymoedd mewn perthynas â'r Gymdeithas neu unrhyw gronfa bensiwn neu gynllun cyfranddaliadau gweithwyr y Gymdeithas.

Llofnodion Aelodau Sylfaenol	Enwau Llawn Aelodau Sylfaenol mewn LLYTHRENNAU BRAS BLOC (dim llythrennau cyntaf)
1.	
2.	
3.	
Llofnod Ysgrifennydd	Enw Llawn Ysgrifennydd mewn LLYTHRENNAU BRAS BLOC (dim llythrennau cyntaf)
1.	

- Derbyniwyd fel cynllun gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol 2014 v.1 -

Manylion Cofrestru

Dyddiad cais

27

Dyddiad pryd y cyflwynwyd y cais

Dyddiad	7 / 8	2015
---------	-------	-------------

Diwedd y ffurflen

